**Adroddiad i:** **Y Pwyllgor Cynllunio**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **17 Hydref 2012**

**Swyddog Arweiniol:** **Angela Loftus**

**Awdur yr Adroddiad:** **Denise Shaw**

**Teitl:** **Awdurdod i ymgynghori ar Ddogfen Canllawiau Cynllunio Dros Dro ar gyfer Datblygiadau Ynni Gwynt**

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

1.1 Cytuno ar Ganllawiau Cynllunio dros dro ar gyfer Datblygiadau Ynni Gwynt fel sail i ymgynghori a chytuno ar sgôp yr ymgynghori. Mae copi o'r ddogfen ynghlwm fel Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Gofyn am awdurdod i ymgynghori ar y Ddogfen Canllawiau Cynllunio Dros Dro ar gyfer Datblygiadau Ynni Gwynt

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Dros Dro sydd wedi'i atodi ar gyfer ymgynghori'n ddwys am gyfnod o wyth wythnos yn dechrau fis Tachwedd 2012.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae yna ardaloedd helaeth ar ucheldir Sir Ddinbych lle mae'r gwynt yn gryf. Cafodd Coedwig Clocaenog ei dynodi fel un o saith Ardal Chwilio Strategol yng Nghymru a thuedd Llywodraeth Cymru yw cyfyngu ar ddatblygiadau mawr o ffermydd gwynt i'r Ardaloedd hynny, sydd wedi'u hasesu'n annibynnol ac yn empirig fel y rhai mwyaf addas ar gyfer datblygu ynni gwynt. Fodd bynnag, nid yw polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn dangos y cyfyngiadau gofodol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt llai na 5 megawat; mae datblygiadau llai na 5 megawat yn dderbyniol ym mhob rhan o Gymru, yn amodol ar asesiadau o effeithiau lleol.

4.2 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i gynhyrchu Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ynni Gwynt ar ôl i Gynllun Datblygu Sir Ddinbych gael ei fabwysiadau. Mae bron â bod yn barod ar hyn o bryd.

4.3 Mae'r Cyngor wrthi'n casglu sail o dystiolaeth ar gyfer cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol a chafwyd arian gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r Cyngor i gynnal asesiad sensitifrwydd tirlun i ynni gwynt.

4.4 Fodd bynnag, gan fod y Cyngor yn cael nifer cynyddol o geisiadau cynllunio, a cheisiadau am Farn Sgrinio Asesiadau Effeithiau Amgylchedd ac ymholiadau cyn cyflwyno ar gyfer datblygiadau tyrbinau gwynt, unigol a chlystyrau, o wahanol faint, ledled y sir, mae'n rhaid cyflwyno canllawiau cynllunio dros dro cyn paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio

Atodol ar gyfer Ynni Gwynt i fod yn ganllaw ac i'w gwneud yn gliriach i ymgeiswyr, Swyddogion ac Aelodau.

4.5 Diben y Canllawiau Cynllunio Dros Dro yw;

- Rhoi canllawiau ynghylch y gofynion cynllunio ar gyfer datblygiadau tyrbinau gwynt.
- Egluro’r canllawiau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio wrth asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni gwynt sy’n cael eu cyflwyno ar sail arall gyfeirio ar ffermydd neu fel cynlluniau ynni cymunedol.
- Egluro agwedd y Cyngor ar Gynlluniau o Fudd Cymunedol.

4.6 Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad yn parhau am wyth wythnos, yn dechrau’n gynnar fis Tachwedd ac yn dod i ben ddechrau Ionawr. Y bwriad yw y bydd y broses ymgynghori’n cynnwys Aelodau, Cynghorau Tref a Chymuned, ymgynghoreion perthnasol megis cynrychiolwyr y diwydiant ynni adnewyddol, cyrff amaethyddol, sefydliadau amgylcheddol lleol, grwpiau cymunedol ac aelodau o’r cyhoedd. Bydd pob dogfen ar gael i’w gweld yn Swyddfeydd y Cyngor yng Nghaledfryn, Dinbych ac yn Neuadd y Sir, Rhuthun, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar wefan Cyngor Sir Ddinbych. Bydd hysbysiad i’r wasg yn cael ei anfon at bapurau lleol a bydd erthygl yn annog sylwadau yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor. Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd crynodeb o’r holl ymatebion i’r ymgynghori, ac unrhyw newid a fydd yn cael ei gynnig i’r Canllawiau Cynllunio Dros Dro ar gyfer Datblygiadau Ynni Gwynt yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Cynllunio yn y flwyddyn newydd.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol Drafft 2012 – 17. Bydd y Canllawiau Cynllunio Dros Dro yn cyfrannu’n bositif at y blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig canlynol:

- *Moderneiddio’r Cyngor i ddarparu arbedion ac i wella gwasanaethau i’n cwsmeriaid.* Bydd y Canllawiau’n gwneud y gofynion yn gliriach i ymgeiswyr ac o help i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 O brofiad, bydd cyhoeddi Hysbysiad Cyhoeddus mewn papurau newydd lleol yn costio tua £700.

6.2. Bydd y costau eraill (oriau swyddogion, argraffu ayb) yn cael eu talu o’r cyllidebau adrannol presennol a gellir adfer y costau o ddyraniad Cronfa Gwella Cynllunio Llywodraeth Cymru 2012 / 13.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.2 Ni wnaed unrhyw ymgynghori ynghylch y cynigion uchod. Cynhaliwyd trafodaeth gyffredinol gydag Aelodau mewn sesiwn hyfforddi ar 12 Medi 2012.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1. Fel y nodir, bydd costau’n cael eu cynnal o fewn y cyllidebau presennol.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

9.1 Amcan y Canllawiau Cynllunio Dros Dro yw gwneud y gofynion cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio tyrbinau gwynt yn gliriach a sefydlu canllawiau clir ar gyfer asesu

cynlluniau arall gyfeirio ar ffermydd a chynlluniau ynni cymunedol cyn y bydd nodyn Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Ynni Gwynt yn cael ei baratoi a'i fabwysiadu.

9.2 Heb ganllawiau clir, mae yna risg na fydd digon o wybodaeth yn cael ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio ac y gallai hynny arwain at oedi wrth benderfynu ar y ceisiadau. Heb y canllawiau ni fydd yna seiliau cyson ar gyfer asesu rhinweddau cynlluniau arall gyfeirio ar ffermydd a chynlluniau ynni cymunedol a gallai hynny amharu ar allu'r Cyngor i gymryd penderfyniadau cyson.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

10.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

**ATODIAD 1:**

**ATODIR Y “CANLLAWIAU CYNLLUNIO DROS DRO AR GYFER DATBLYGIADAU YNNI GWYNT2 (DRAFFT YMGYNGHORI)**